

Cyfeirnod: IR831

Dyddiad cyhoeddi: 09 Awst 2022

Setliad Adolygu Cyflogau Cyflogeion

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 13 Gorffennaf 2022 yn gofyn am wybodaeth ynghylch adolygiad/setliad cyflogau cyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru yn 2022.

I'w gwneud yn haws cyfeirio atynt, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod mewn inc trwm ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

1. Nodwch y dyddiad (diwrnod a mis) y daeth adolygiad cyflogau eich sefydliad i rym yn 2022.

1 Ebrill 2022.

2. Os nad yw adolygiad cyflogau 2022 wedi cael ei gwblhau eto nodwch y mis pan ydych yn disgwyl y bydd yn cael ei gwblhau.

Ddim yn berthnasol.

3. Nodwch y grŵp/grwpiau cyflogeion a gwmpesir gan adolygiad cyflogau 2022.

Yr staff ym mandiau cyflogau 1-7 ac A-C. Mae gwybodaeth am ein graddfeydd cyflogau cyfredol ar gael ar ein gwefan yn:

<https://www.audit.wales/cy/swyddi/gweithio-inni>

4. Nodwch gyfanswm y cyflogeion a gwmpesir gan adolygiad cyflogau 2022.

301 o gyflogeion o ran y sefyllfa ar 1 Awst 2022.

5. Darparwch gopi o'ch cytundeb cyflogau 2022 (os yn berthnasol) neu gylchlythyr cyflogau generig a anfonwyd at gyflogeion (hynny yw un nad yw'n enwi unrhyw gyflogai unigol) sy'n amlinellu canlyniad yr adolygiad cyflogau diweddaraf os nad oes unrhyw gyd-drafodaethau.

Gweler y ddogfen sydd wedi'i hatodi.

6. Nodwch % y codiad cyflog sylfaenol cyfunedig a gafwyd gan y cyflogai sy'n oedolyn (18 oed a throsodd) sy'n cael y cyflog isaf o ganlyniad i adolygiad

cyflogau 2022 heb gynnwys effaith unrhyw godiad cynyddrannol, tâl teilyngdod neu fonysau.

Gweler y ddogfen sydd wedi'i hatodi.

7. Os yw dyfarniad cyflog blynyddol cyflogai'n cael ei bennu'n gyfan gwbl yn ôl asesiad o'i berfformiad unigol (a adwaenir yn gyffredin fel cynnydd ar sail teilyngdod) yn hytrach na chodiadau cyffredinol (lle mae'r holl gyflogeion fel rheol yn cael yr un cynnydd ni waeth beth fo'u perfformiad unigol) nodwch ganran y bil cyflogau a ddyrennir i ariannu'r dyfarniadau hyn, ystod y codiadau a pha un a yw'r dyfarniadau'n gyfunedig ai peidio.

Ddim yn berthnasol.

8. Os oedd unrhyw gyflogeion yn gymwys i gael taliadau neu fonysau unigol a oedd yn gysylltiedig â pherfformiad y tu hwnt i'r codiad cyflog cyffredinol nodwch ystod y codiadau (naill ai fel canran o'u cyflog sylfaenol neu swm arian parod fel y bo'n berthnasol), pa un a oeddent yn godiadau cyfunedig a gynhwysir mewn cyflog sylfaenol a nodwch % y bil cyflogau ar y cyfan a ddyrannwyd i ariannu'r dyfarniadau hyn.

Ddim yn berthnasol.

9. Nodwch y cynnydd yn y bil cyflogau ar y cyfan o ganlyniad i'r adolygiad cyflogau diweddaraf wedi'i fynegi fel canran o'r bil cyflogau.

3% gan gynnwys gwrthbwysiad yn erbyn budd taladwy a dynnwyd yn ôl.

10. Nodwch enw'r undeb/undebau sy'n rhan o'ch prif gydgytundeb ar gyfer cyflog ac amodau os oes cyd-drafodaethau.

Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) a Prospect.

11. Darparwch enw a manylion cyswllt yr un/y rhai sy'n gyfrifol am oruchwylio adolygiad cyflogau blynyddol eich sefydliad.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am ddarparu adnoddau ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei swyddogaethau gan gynnwys cyflogi staff, ac mae'r cyfrifoldeb am bennu telerau ac amodau cyflog yn cael ei gadw'n ôl gan mwyaf i'r Bwrdd. Gall y Bwrdd gael ei gynghori gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, cysylltwch â mi'n ddiymdroi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth

From:**Sent:** 07 July 2022 10:05**To:** DG-WAO Everyone**Subject:** Pay award 2022-23

Annwyl Gydweithiwr,

Mae'n dda gennyf ddweud bod ein trafodaethau gyda'r undebau llafur wedi dod i ben ac yr ydym wedi gwneud cynnig terfynol ar gyfer dyfarniad cyflog 2022-23. Dyma fanylion y dyfarniad:

- Codiad canrannol unffurf yn hytrach na

Dear Colleague,

I am pleased to advise that our talks with the trade unions have reached a conclusion and we have made a final offer for the 2022-23 pay award. Details of the award are:

- Flat percentage uplift rather than

dyfarniad cyflog haenog;

- 3% ar gyfer yr holl staff gyda'r gyllideb ar gyfer y lwfans gweithio cartref yn cael ei chyfuno â thâl pensiynadwy;
- Wedi'i ôl-ddyddio hyd at 1 Ebrill 2022, fodd bynnag, byddai'r lwfans gweithio cartref a dalwyd eisoes yn ystod 2022-23 yn cael ei ddebydu oddi wrth yr ôl-daliad;
- Caiff y codiad ei roi ar waith ym mis Gorffennaf;
- Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar y cynnig hwn wedi'i gynnal a'i rannu â chydweithwyr yr undebau llafur.

Agweddau eraill ynglŷn â'r hawliad cyflog:

- Cadarnhad yn unol â pholisi Adnoddau Dynol, na fydd diswyddo gorfodol pob tro ond yn opsiwn pan fetho popeth arall ar ôl i'r holl gyfleoedd adleoli ac ail-hyfforddi rhesymol eraill gael eu disbyddu;
- Nid ydym yn bwriadu cynnig newidiadau i amser gweithio na hawl i wyliau blynyddol;
- Rydym bellach wedi sicrhau achrediad ffurfiol am dalu'r Cyflog Byw Go lawn.

Nid yw'r undebau wedi derbyn y cynnig cyflog ac ni fyddant yn gofyn i'w haelodau bleidleisio arno. Fodd bynnag, maent wedi ymgynghori â'u haelodau ar ddau opsiwn posibl ar gyfer strwythuro'r dyfarniad. Mae'r cynnig yn adlewyrchu'r opsiwn a ffefir gan fwyafrif o aelodau'r undeb a ymatebodd.

[Gallwch ganfod y bandiau cyflog wedi'u diweddarau ar yr Hwb.](#)

tiered pay award;

- 3% for all staff with the budget for the homeworking allowance being consolidated with pensionable pay;
- Back dated to 1 April 2022 however the homeworking allowance already paid during 2022-23 would be netted off the back pay;
- The uplift will be implemented in July pay;
- An equality impact assessment on this offer has been undertaken and shared with TU colleagues.

Other aspects of pay claim:

- Confirmation per HR policy, that compulsory redundancy will only ever be an option of last resort after all other reasonable redeployment and re-training opportunities have been exhausted;
- We are not planning to offer changes to working time or annual leave entitlement;
- We have now secured formal accreditation for paying the Real Living Wage.

The unions have not accepted the pay offer and will not be balloting members on it.

However, they have consulted their members on two potential options for structuring the award. The offer reflects the option preferred by a majority of the union members that responded.

[You can find the updated pay bands on the Hub.](#)

